

CYNGOR

(CANOLFAN DDINESIG PORT TALBOT)

Aelodau sy'n Bresennol:

Dydd Mawrth, 1 Mawrth 2022

Y Maer:

Councillor

Y Dirprwy Faer

Councillor J.D.Morgan

Cynghorwyr:

A.R.Aubrey, S.Bamsey, D.Cawsey, H.C.Clarke, C.Clement-Williams, M.Crowley, A.P.H.Davies, N.J.E.Davies, O.S.Davies, R.Davies, C.Edwards, J.Evans, S.E.Freeguard, C.Galsworthy, W.F.Griffiths, S.Grimshaw, J.Hale, S.Harris, M.Harvey, N.T.Hunt, S.K.Hunt, J.Hurley, C.James, H.N.James, C.J.Jones, D.Jones, H.Jones, J.Jones, L.Jones, R.G.Jones, S.Jones, D.Keogh, S.A.Knoyle, E.V.Latham, D.Lewis, A.Llewelyn, A.R.Lockyer, J.Miller, S.Miller, R.Mizen, S.Paddison, S.M.Penry, D.M.Peters, R.Phillips, M.Protheroe, L.M.Purcell, S.Pursey, S.Rahaman, P.A.Rees, S.Renkes, S.H.Reynolds, A.J.Richards, P.D.Richards, M.Spooner, A.J.Taylor, R.L.Taylor, D.Whitelock, C.Williams, A.Wingrave, R.W.Wood a/ac A.N.Woolcock

**Swyddogion sy'n
Bresennol:**

K.Jones, A.Jarrett, A.D.Thomas, N.Pearce, C.Griffiths, H.Jones, C.Furlow-Harris, M.Shaw, N.Blackmore, S.Curran and J. Woodman-Ralph

1. CROESO A GALW'R RHESTR

Croesawodd y Cynghorydd J D Morgan bawb i'r cyfarfod a galwyd yr enwau.

2. CYHOEDDIADAU'R MAER

Dywedodd y Dirprwy Faer fod ein meddyliau gyda phobl Wcráin ar hyn o bryd a galwodd ar Arweinydd y Cyngor, y Cynghorydd E V Latham, i wneud datganiad ar y cyd.

"Yng nghyfarfod diwethaf y cyngor, cafwyd condemniad unfrydol o'r camau a gymerwyd gan Vladimir Putin a Llywodraeth Rwsia ond hefyd gefnogaeth unfrydol i lywodraeth Wcráin a phobl Wcráin.

Byddwn i gyd wedi cael arswyd yn gwylio'r cynnydd yn y rhyfel ers hynny.

Mae llawer o bobl wedi colli eu bywydau, eu cartrefi a'u bywoliaeth. Mae graddfa'r argyfwng dyngarol sy'n datblygu yn erchyll ac mae brys gwirioneddol i roi dulliau cefnogi ymarferol ar waith i'r rheini sydd wedi cael eu dadleoli o'u cartrefi.

Rwy'n llwyr gefnogi ymrwymiad y Prif Weinidog y dylai Cymru fod yn genedl noddfa ac i'r perwyl hwn mae swyddogion ac aelodau'r cabinet wrthi'n ymgysylltu â Llywodraeth Cymru i wneud paratodau cyflym i dderbyn ffoaduriaid o Wcráin.

Ddydd Llun yr wythnos hon, cyhoeddodd Llywodraeth y DU ddau lwybr fisa arbennig:

Llwybr Fisa Teuluol – mae hwn bellach ar agor ac yn bôn mae'n darparu llwybr ar gyfer y ffoaduriaid hynny sydd â theulu sydd eisoes yn byw yn y DU.

Yr ail lwybr yw'r cynllun Cartrefi i Wcráin – o ddydd Llun yr wythnos hon, gall y rheini sydd â llety y gallant ei gynnig am o leiaf chwe mis gofrestru eu diddordeb mewn cymryd rhan yn y cynllun.

Mae dwy is-elfen i'r rhaglen hon. Mae'r cyntaf ar gyfer pobl sydd â llety sy'n adnabod pobl o Wcráin sy'n ceisio cefnogaeth a'r ail fydd i'r bobl hynny sydd â llety ond nad oes ganddynt gysylltiad â pherson o Wcráin sy'n ceisio cefnogaeth. Yn yr ail elfen, bydd gan gymdeithas ddinesig - er enghraifft grwpiau eglwysi ac elusennau – rôl o ran paru rhywun sy'n ceisio cefnogaeth â rhywun sy'n gallu darparu'r gefnogaeth honno.

Pan fydd cydweddiad rhwng rhywun sy'n cynnig cefnogaeth a rhywun sy'n gofyn am gefnogaeth, mae'r porth digidol yn darparu ar gyfer gwiriad cofnodion troseddol o'r ddau barti ac os yw hynny'n foddhaol, caiff fisa ei chyflwyno. Bydd gan y rheini sydd â fisa yr hawl i gael gafael ar arian cyhoeddus a gwasanaethau cyhoeddus o'r pwynt lle maent yn cyrraedd y DU. Bydd disgwyl i awdurdodau lleol wneud gwiriadau diogelu lleol i sicrhau bod y llety'n addas ac yn y blaen.

Nid oes cymorth gyda chostau teithio yn y DU – mater i'r ffoadur yw dod o hyd i'w ffordd i'r DU.

Mae Llywodraeth Cymru wedi cytuno mewn egwyddor â Llywodraeth y DU y bydd yn dymuno gweithredu fel uwch-noddwr. Fel rhan o'r rôl hon, byddai Llywodraeth Cymru yn ceisio sefydlu nifer o ganolfannau derbyn cyn ei bod yn anfon ffoaduriaid i rwydwaith llety.

Bydd awdurdodau lleol yn derbyn tariff o £10,500 y ffoadur ym mlwyddyn un ond nid yw'r tariff ar gyfer blynyddoedd 2 a 3 wedi'i bennu eto. Bwriad y cyllid hwn yw talu costau darparu gwasanaethau – er enghraifft addysg i'r teuluoedd hynny sydd â phlant o oed ysgol.

Fel y bydd yr aelodau'n gwerthfawrogi, mae hwn yn ddarlun sy'n datblygu'n gyflym iawn ac sy'n destun newid sylweddol. Mae'r Prif Weithredwr wedi gofyn i'r Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol, Mr Andrew Jarrett, gydlynu cyfranogiad y cyngor hwn yn yr ymdrech ddyngarol. Bydd yn sefydlu grŵp mewnol ar draws cyfarwyddiaethau i gydlynu ein hymateb gwasanaeth ein hunain ac ail grŵp amlasiantaeth i gydlynu ymateb ehangach y gymuned.

Yn dilyn y pandemig, pan fydd llawer o wasanaethau, yn enwedig gofal, addysg a thai dan bwysau parhaus difrifol, bydd heriau o'n blaenau. Fodd bynnag, byddwn yn gwneud popeth y gallwn i chwarae rhan lawn wrth ymateb i'r argyfwng dyngarol hwn.

Yn ogystal â'r argyfwng dyngarol yr ydym yn ymateb iddo, mae goblygiadau ehangach i ni. Roeddem eisoes yn gweld yr argyfwng costau byw yn effeithio'n fawr ar ein preswylwyr a bydd y costau ynni uwch a'r pwysau chwyddiant cysylltiedig yn dwysáu hyn. Mae'r Prif Weithredwr yn cymryd camau i ddarganfod beth yw effeithiau ehangach hyn a sut y gallwn ysgogi'r ymateb gorau. Wrth i ni symud i'r cyfnod cyn yr etholiad bydd trefniadau'n cael eu rhoi ar waith i sicrhau bod cyfathrebu rheolaidd gydag aelodau etholedig fel ein bod yn gweithio'n gydlynol i gefnogi ein cymunedau a'n busnesau lleol wrth sicrhau hefyd bod pobl o Wcráin yn dod o hyd i hafan ddiogel a chefnogol yma yng Nghastell-nedd Port Talbot."

Nododd yr Aelodau y bydd y Prif Weithredwr yn trefnu i'r briff uchod gael ei anfon drwy e-bost at bob aelod etholedig yn dilyn y cyfarfod heddiw.

Cymeradwyodd y Cynghorwyr A Llewelyn, Arweinydd Plaid Cymru ac S Jones, Arweinydd y Democratiaid Annibynnol y datganiad ar y cyd.

Gofynnodd y Dirprwy Faer i'r cyngor ymuno ag ef i longyfarch y Cynghorydd A R Aubrey a'i theulu ar enedigaeth ddiweddar ei merch, Enfys.

3. **DATGANIADAU O FUDDIANNAU**

Gwnaeth yr Aelod canlynol ddatganiad o fudd:

| | |
|--------------------------|--|
| Y Cynghorydd M Harvey | Parthed: Eitemau 4,5,7,8 ar yr Agenda gan ei fod yn gweithio i Heddlu De Cymru ond nid oedd yn teimlo bod ei fudd yn rhagfarnol. |
|--------------------------|--|

4. **CYNLLUN CORFFORAETHOL DRAFFT 2022-2027**

Cyflwynodd y Cynghorydd E V Latham, Arweinydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot yr adroddiad a'i argymhell i'r cyngor i'w fabwysiadu.

Roedd yr Aelodau'n gefnogol o'r amcanion yn y cynllun yn enwedig y pwyslais ar dreftadaeth a diwylliant a diolchwyd i'r Prif Weithredwr am ymweld â'r wardiau unigol i gasglu barn Aelodau a phreswylwyr a oedd wedi cyfrannu at yr amcanion gerbron y cyngor heddiw.

PENDERFYNWYD: Mabwysiadu'r Cynllun Corfforaethol ar gyfer 2022 - 2027 fel y nodir yn Atodiad 1 yr adroddiad a ddsbarthwyd.

5. **CYLLIDEB REFENIW 2022/2023**

Cyflwynodd y Cynghorydd Clement-Williams, Aelod y Cabinet dros Gyllid, yr adroddiad a gafodd ei argymhell i'r cyngor gan y Cabinet ar 28 Chwefror 2022. Tynnwyd sylw at y ffaith bod cyllideb eleni'n ddigyffelyb gan fod gofyn i'r cyngor rewi Treth y Cyngor ar lefelau 2021/2022 am y tro cyntaf ers ei sefydlu. Roedd y gyllideb hefyd yn cynnwys arian i wella gwasanaethau hanfodol, ysgolion ac addysg. Yn ogystal, byddai 2.8 miliwn o gronfeydd wrth gefn yn cael eu defnyddio i gefnogi buddsoddiadau adfer COVID-19 untro. Hefyd, cynyddu buddsoddiadau i wella golwg strydoedd a chymdogaethau a gwasanaethau ieuenctid i helpu pobl ifanc Castell-nedd Port Talbot. Nodwyd bod y sefyllfa ariannol gadarnhaol hon nid yn unig oherwydd y setliad ariannol a gafwyd gan Lywodraeth Cymru ond oherwydd sut y rheolwyd cyllidebau blaenorol. Diolchodd yr Aelodau i'r Prif

Swyddog Cyllid a gofynnwyd i'w gwerthfawrogiad gael ei rannu â'r Tîm Cyllid am yr holl waith y maent wedi'i wneud i ddatblygu'r adroddiad cyllideb sy'n cael ei ystyried yng ngyfarfod y cyngor heddiw.

Yn dilyn hynny, cafwyd trafodaeth ar y cynnig i barhau â Threth y Cyngor ar lefelau 2021/2022. Holodd yr Aelodau a oedd unrhyw gyfle i ostwng Treth y Cyngor 2.75% yn hytrach na'i rhewi ar lefelau 2021/2022, wedi'i ariannu o gronfeydd cyffredinol wrth gefn. Mynegwyd pryder ynghylch lefel yr amddifadedd ym Mwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot a'r cynnydd parhaus yng nghostau byw a'i effaith ar breswylwyr.

Atgoffwyd yr Aelodau o'r cynnig diweddar i ddatblygu Cronfa Galedi Castell-nedd Port Talbot drwy neilltuo £2 filiwn o'r gronfa wrth gefn gyda manylion y gronfa i'w datblygu a'u hadrodd yn ôl i'r Aelodau eu hystyried yn y dyfodol.

Yn dilyn hynny, tynnwyd sylw at y ffaith na fyddai unrhyw ostyngiad yn Nhreth y Cyngor a lleihau cronfeydd wrth gefn cyffredinol yn ddoeth nac yn gynaliadwy yn y dyfodol.

Argymhellwyd diwygiad i'r cyngor a chafwyd cais am bleidlais wedi'i chofnodi yn sgîl hyn, ar y diwygiad canlynol, a gafodd y gefnogaeth angenrheidiol yn unol â gofynion Adran 14.5 o Ran 4 o Gyfansoddiad y Cyngor – Rheolau Gweithdrefn.

Y bydd y swm cyfatebol ar gyfer Band D 2022/2023 Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot yn £1,614.37 a bydd gostyngiad o 2.75% yn Nhreth y Cyngor mewn cyferbyniad â'i rhewi o 2.75% fel y nodir yn yr adroddiad gyda'r bwlch o 1.669% yn cael ei ariannu o'r gronfa gyffredinol wrth gefn (sy'n cynrychioli swm o £1.669 miliwn ar gyfer 2022/2023).

O blaid y diwygiad:

Y Cynghorwyr: S Bamsey, H C Clarke, N E Davies, R Davies, C Edwards, J Evans, W Griffiths, J Hale, S Harris, N Hunt, S K Hunt, J Hurley, C James, H Jones, J Jones, S Jones, S Knoyle, D Lewis, A Llewelyn, L M Purcell, A J Richards, M Spooner a C Williams.

Yn erbyn y diwygiad:

Y Cynghorwyr: A Aubrey, D Cawsey, C Clement-Williams, S Lynch, A P H Davies, O Davies, S Freeguard, C Galsworthy, M Harvey, H N James, C J Jones, D Jones, L C Jones, R G Jones, D Keogh, E V Latham, A R Lockyer, J Miller, S Miller, S Paddison, S M Penry, M Protheroe, S Pursey, S Rahaman, P A Rees, S Renkes, S Reynolds, P D Richards, A J Taylor, R L Taylor, D Whitelock, A Wingrave, R W Coed ac A R Woolcock.

Ymataliad:

Y Cynghorydd: J D Morgan

Ddim yn bresennol ar gyfer y bleidlais:

Y C M Crowley, R Mizen, D M Peters a R Phillips
Cynghorwyr:

O ganlyniad i'r uchod, methodd y diwygiad a dilynwyd cais am bleidlais wedi'i chofnodi, ar yr argymhelliad sylweddol a geir yn yr adroddiad a ddosbarthwyd, a gafodd y gefnogaeth angenrheidiol yn unol â gofynion Adran 14.5 o Ran 4 o Gyfansoddiad y Cyngor – Rheolau Gweithdrefn.

O blaid yr argymhelliad:

| | |
|---------------|--|
| Y Cynghorwyr: | A Aubrey, D Cawsey, C Clement-Williams, S Lynch, A P H Davies, O Davies, S Freeguard, C Galsworthy, M Harvey, H N James, C J Jones, D Jones, L C Jones, R G Jones, D Keogh, E V Latham, A R Lockyer, J Miller, S Miller, S Paddison, S M Penry, M Protheroe, S Pursey, S Rahaman, P A Rees, S Renkes, S Reynolds, P D Richards, A J Taylor, R L Taylor, D Whitelock, A Wingrave, R W Coed ac A R Woolcock. |
|---------------|--|

Yn erbyn yr argymhelliad:

| | |
|---------------|-------------------------------------|
| Y Cynghorwyr: | S Bamsey, H C Clarke, N E Davies, R |
|---------------|-------------------------------------|

| | |
|--|--|
| | Davies, C Edwards, J Evans, W Griffiths, J Hale, S Harris, N Hunt, S K Hunt, J Hurley, C James, H Jones, J Jones, S Jones, S Knoyle, D Lewis, A Llewelyn, L M Purcell, A J Richards, M Spooner a C Williams. |
|--|--|

Ymataliad:

Y Cyngorydd: J D Morgan

Ddim yn bresennol ar gyfer y bleidlais:

Y Cyngorwyr: C M Crowley, R Mizen, D M Peters a R Phillips

PENDERFYNWYD: Ar ôl rhoi sylw dyladwy i'r Asesiad Effaith Integredig:

1. Cymeradwyo buddsoddiadau Cyllideb Refeniw a chynllun gwasanaeth y cyngor ar gyfer 2022/2023 fel y nodir yn Atodiad 1 a 2 i'r adroddiad a ddosbarthwyd.
2. Bod y £2.8 miliwn o'r gronfa Yswiriant wrth gefn i'w defnyddio i gyflawni nifer o fuddsoddiadau untro i gefnogi adferiad COVID-19 gan gynnwys recriwtio staff i gyflawni gwaith o gwmpas y cynllun dechrau gorau mewn bywyd.
3. Rhoi awdurdod dirprwyedig i'r Cyfarwyddwr Corfforaethol priodol yn dilyn ymgynghoriad ag Arweinydd y Cyngor, yr Aelod Cabinet perthnasol a Chadeirydd y Pwyllgor Craffu perthnasol:
 - Pennu ffioedd a thaliadau (ar gyfer swyddogaethau gweithredol) ar gyfer blwyddyn ariannol 2022/2023.
 - Pennu ffioedd a thaliadau (ar gyfer swyddogaethau gweithredol) sy'n berthnasol ar gyfer unrhyw

flwyddyn ariannol ddilynol ac, ym marn y Cyfarwyddwr Corfforaethol perthnasol, y mae angen penderfynu arnynt cyn y flwyddyn ariannol am resymau gweithredol.

4. Rhoi awdurdod dirprwyedig i'r Cyfarwyddwr Corfforaethol priodol yn dilyn ymgynghoriad ag Arweinydd y Cyngor, y Dirprwy Arweinydd a Chadeirydd y Pwyllgor Anweithredol perthnasol i:
 - Bennu Ffioedd a Thaliadau ar gyfer swyddogaethau (anweithredol) ar gyfer y flwyddyn 2022/2023.
 - Pennu ffioedd a thaliadau (ar gyfer swyddogaethau anweithredol) sy'n berthnasol ar gyfer unrhyw flwyddyn ariannol ddilynol ac, ym marn y Cyfarwyddwr Corfforaethol, y mae angen eu pennu cyn y flwyddyn ariannol honno am resymau gweithredol.
5. Rhoi awdurdod dirprwyedig i'r Prif Swyddog Cyllid, mewn ymgynghoriad â'r Prif Weithredwr, yr Arweinydd ac Aelod y Cabinet dros Gyllid, i wneud unrhyw ddiwygiad sy'n angenrheidiol drwy ddefnyddio cronfeydd wrth gefn cyffredinol, o ganlyniad i'r setliad terfynol sy'n ddyledus ar 2 Mawrth 2022.
6. Na fydd cynnydd yn Nhreth y Cyngor yn 2022/2023 gyda lefelau treth yn cael eu rhewi ar werthoedd 2021/2022. Bydd yr hyn sy'n cyfateb i Fand D 2022/2023 ar gyfer Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot yn parhau i fod yn £1,660.02.

6. **TRETH Y CYNGOR 2022/2023**

Cyflwynodd y Cynghorydd Clement-Williams, Aelod y Cabinet dros Gyllid, yr adroddiad a gafodd ei argymhell i'r cyngor gan y Cabinet a gynhaliwyd ar 28 Chwefror 2022.

PENDERFYNWYD:

1. Bod unrhyw dreuliau a ysgwyddir gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot wrth berfformio mewn rhan o'i ardal yn cael eu trin fel treuliau cyffredinol yr awdurdod.
2. Bod ardoll Awdurdod Iechyd Porthladd Bae Abertawe yn cael ei thrin fel treuliau cyffredinol.
3. Bod y symiau canlynol yn cael eu cyfrifo'n unol ag Adrannau 32 i 36 o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992.

| | Swm |
|--|--|
| Cyfanswm yr eitemau a amcangyfrifwyd o dan Adran 32 (2) - gwariant | £493,679,702 |
| Cyfanswm yr eitemau a amcangyfrifwyd o dan adran 32 (3) - incwm | £153,258,637 |
| Swm a gyfrifwyd yn unol ag adran 32(4) – gofyniad cyllidebol | £340,421,065 |
| Y cyfanswm sy'n daladwy mewn perthynas â'r Ardreth Annomestig Genedlaethol a'r Grant Cynnal Refeniw a ailddosbarthwyd, yn cael ei leihau'n unol ag Adran 33 (3B) o'r Ddeddf | £257,681,000 |
| Swm sylfaenol Treth y Cyngor yn unol ag Adran 33 (1) o'r Ddeddf | £1,709.73 |
| Cyfanswm yr holl eitemau arbennig y cyfeiriwyd atynt yn adran 34(1) o'r Ddeddf. | £2,405,588 |
| Swm sylfaenol Treth y Cyngor ar gyfer anheddau yn y rhannau hynny o'i ardal nad oes unrhyw eitem arbennig yn ymwneud â nhw, yn unol ag Adran 34 (2) o'r Ddeddf | £1,660.02 |
| Symiau sylfaenol Treth y Cyngor ar gyfer anheddau yn y rhannau hynny o'i ardal y mae bandiau eitemau arbennig yn ymwneud â hwy, a gyfrifir yn unol ag adran 34(3) o'r Ddeddf | Yn unol ag Atodiad 1 yr adroddiad a ddosbarthwyd. |
| Symiau i'w hystyried mewn perthynas â chategoriâu o anheddau a restrir mewn prisiad gwahanol, a gyfrifir yn unol ag Adran 36(1) o'r Ddeddf. | Yn unol ag Atodiad 2 o'r adroddiad a ddosbarthwyd. |

4. Bod Comisiynydd yr Heddlu a Throseddau De Cymru wedi datgan y symiau canlynol mewn praesept a roddwyd i'r cyngor, yn unol ag Adran 40 o'r Ddeddf.

| | |
|--------|---------|
| Band A | £201.41 |
| Band B | £234.97 |
| Band C | £268.54 |
| Band D | £302.11 |
| Band E | £369.25 |
| Band F | £436.38 |
| Band G | £503.52 |
| Band H | £604.22 |
| Band I | £704.92 |

Cyfanswm y praesept sy'n daladwy yw £14,620,215.

5. Ar ôl cyfrifo'r cyfansymiau ym mhob achos uchod, mae'r cyngor, yn unol ag adran 30(2) o'r Ddeddf drwy hyn yn pennu'r symiau a ddangosir yn Atodiad 3 fel Treth y Cyngor ar gyfer 2022/2023 ar gyfer pob un o'r categorïau o anheddau a ddangosir.

7. STRATEGAETH GYFALAF A RHAGLEN GYFALAF 2022/2023 I 2024/2025

Cyflwynodd y Cynghorydd Clement-Williams, Aelod y Cabinet dros Gyllid, yr adroddiad a oedd wedi'i argymhell i'r cyngor gan y Cabinet a gynhaliwyd ar 28 Chwefror 2022.

- PENDERFYNWYD:**
1. Cymeradwyo'r Strategaeth Gyfalaf fel y nodir yn Atodiad 1 i'r adroddiad a ddsbarthwyd;
 2. Cymeradwyo'r Rhaglen Gyfalaf ar gyfer 2022/2023 i 2024/2025 fel y nodir yn yr adroddiad a ddsbarthwyd.
 3. Cymeradwyo'r trefniadau dirprwyedig fel y nodir ym mharagraff 12 o'r adroddiad a ddsbarthwyd.

8. **STRATEGAETH RHEOLI'R TRYSORLYS, STRATEGAETH BUDDSODDI FLYNYDDOL A PHOLISI DARPARIAETH ISAFSWM REFENIW**

PENDERFYNWYD: Rhoi cymeradwyaeth i'r strategaethau a'r polisiau canlynol:

- Strategaeth Rheoli'r Trysorlys
- Strategaeth Buddsoddi Flynyddol
- Polisi Darpariaeth Isafswm Refeniw
- Dangosyddion Darbodus.

9. **MONITRO'R GYLLIDEB GYFALAF 2021/2022**

PENDERFYNWYD: 1. Cymeradwyo cyllideb ddiweddaedig 2021/2022, sef cyfanswm o £78.834 miliwn, gan gynnwys y newidiadau i'r gyllideb fel y nodir yn Atodiad 2 i'r adroddiad a ddisbarthwyd.

10. **RHYBUDD O GYNNIG DAN ADRAN 10 RHAN 4 (RHEOLAU GWEITHDREFNAU) CYFANSODDIAD Y CYNGOR**

Ni dderbyniwyd unrhyw Hysbysiadau o Gynnig.

11. **CWESTIYNAU GAN AELODAU, GYDA RHYBUDD, DAN REOL 9.2 RHEOLAU GWEITHDREFNAU'R CYNGOR**

Ni ofynnwyd unrhyw gwestiynau.

12. **EITEMAU BRYD**

Ni dderbyniwyd unrhyw eitemau bryd.

CHAIRPERSON